Y Cwricwlwm Cymreig

Cyfnod 2

Estyn

Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

1 Cyfnod	**1**
2 Crynodeb	**3**
3 Argymhellion	**5**
4 Effaith y Cwricwlwm Cymreig ar safonau	**6**
5 Effaith y Cwricwlwm Cymreig ar addysgu a dysgu	**8**
6 Ansawdd cynllunio'r cwricwlwm	**10**
7 Effaith arweinyddiaeth a rheolaeth ar y Cwricwlwm Cymreig	**13**
8 Darpariaeth adnoddau ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig	**14**

Atodiad

Astudiaethau achos o arfer dda wrth gyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig
Astudiaethau achos o'r Cwricwlwm Cymreig mewn Canolfannau Peilot
Bagloriaeth Cymru

1 Cyfnod

1 Ym mis Ebrill 2005, arfarnodd Estyn y cynnydd a wnaed gan ysgolion wrth weithredu arweiniad Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) ar y Cwricwlwm Cymreig o'r blynyddoedd cynnar i gyfnod allweddol 3. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw trwy ganolbwyntio ar ddatblygiadau yng nghyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd. Mae'r adroddiad yn ystyried effaith mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y Rhwydweithiau Dysgu 14-19 a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae sail y dystiolaeth yn cynnwys:

- adroddiadau arolygu ysgolion ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2003-2004 a 2004-2005; ac
- ymweliadau AEM, yn ystod tymor yr haf a'r hydref 2005 a thymor y gwanwyn 2006, i sampl fach o ysgolion uwchradd ac un ysgol arbennig i:
  - drafod y Cwricwlwm Cymreig gyda disgyblion, athrawon, cydlynwyr a phenaethiaid; ac
  - archwilio gwaith disgyblion a dogfennau cynllunio athrawon.

2 Nododd 'Y Cwricwlwm Cyfan ar gyfer plant 5-16 yng Nghymru' Cyngor Cwricwlwm Cymru 1991 (CCW) y tair nodwedd sy'n cyfrannu at arwahanrwydd y Cwricwlwm Cymreig, sef:

- yr iaith Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng addysgu a dysgu;
- agweddau ar gynnwys cwricwlwm sy'n arbennig i Gymru; a
- 'Chymreictod' cyffredinol profiadau dysgu disgyblion.

3 Ym 1993, cyhoeddodd Cyngor Cwricwlwm Cymru arweiniad pellach mewn dogfen o'r enw Papur Ymgynghorol 18 'Datblygu Cwricwlwm Cymreig'. Roedd y papur hwn yn nodi pum elfen sydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Cwricwlwm Cymreig a'u bwriad oedd datblygu'r canlynol ymhlith disgyblion:

- ymdeimlad o berthyn;
- ymdeimlad o le a threftadaeth;
- ymwybyddiaeth o bwysigrwydd o iaith a llenyddiaeth yn hanes a bywyd Cymru;
- dealltwriaeth o'r celfyddydau creadigol a mynegiannol yng Nghymru; ac
- ymwybyddiaeth o'r ffactorau sydd wedi ffurfio credoau ac arferion crefyddol Cymru.

4 Bu'r dogfennau hyn yn ddylanwadol wrth lywio cynllunio'r cwricwlwm.

5 Yn 2003, lluniodd ACCAC arweiniad ar gyfer ysgolion o'r enw 'Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig'. Roedd hwn yn dilyn adroddiad cynharach a luniwyd gan Estyn yn 2001 ar 'Y Cwricwlwm Cymreig: Dimensiwn Cymreig y cwricwlwm yng Nghymru: arfer dda mewn addysgu a dysgu.'

6 Mae arweiniad ACCAC yn esbonio'r rhesymeg dros y Cwricwlwm Cymreig, pam mae'n bwysig, a sut a ble gall ysgolion ei hyrwyddo. Mae'r arweiniad yn nodi cyfleoedd i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig ac yn amlygu arfer dda trwy astudiaethau achos. Mae'r astudiaethau achos hyn yn disgrifio arfer dda mewn addysgu'r Cwricwlwm Cymreig ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

7 O 1 Ebrill 2006, unodd ACCAC â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae bellach yn rhan o'r Adran newydd dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chyfeirir ati fel ACCAC/AADGOS.

2 Crynodeb

8 Mae safonau ac ansawdd yr addysgu yn dda neu'n well mewn tri chwarter ysgolion yr arolwg. Yn yr ysgolion hyn, mae'r Cwricwlwm Cymreig yn aml yn nodwedd gref ac mae'n rhoi diben, cyfeiriad ac arwyddocâd i ddysgu disgyblion. Mae hyn yn rhoi bywiogrwydd ac uniongyrchedd i'r gwaith sy'n cryfhau ymdeimlad disgyblion o hunaniaeth a hunan-barch, tra bydd hefyd yn eu helpu i weld Cymru yn wlad fodern, amrywiol sy'n rhan o gymuned ryngwladol ehangach.

9 Trwy ganolbwyntio ar waith maes a thrwy ddefnyddio enghreifftiau gwirioneddol, mae gwaith sy'n seiliedig ar y Cwricwlwm Cymreig yn aml yn amlygu cymhlethdod sefyllfaoedd a phynciau. Mae hyn yn helpu i ddatblygu medrau ymchwiliol ac ymchwilio dysgwyr ac maent yn ennill dealltwriaeth fanylach o'u hastudiaethau.

10 Cyflwynir llawer o'r Cwricwlwm Cymreig trwy weithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau yn y gymuned, sy'n aml yn cryfhau eu dealltwriaeth gymunedol. Trwy hyn, gall y Cwricwlwm Cymreig gael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ac ar eu datblygiad personol a chymdeithasol.

11 Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau Eisteddfodau'r Urdd mewn ysgolion yn cynnwys niferoedd mawr o ddisgyblion. Mae gan fudiad ieuenctid yr Urdd rôl hynod bwysig wrth ddarparu canolbwynt ar gyfer ysgolion wrth feithrin medrau creadigol a pherfformio mewn digwyddiadau diwylliannol. Yn hyn o beth, mae'r ysgol yn aml yn rhoi hwb diwylliannol a ffynhonnell o gyfoeth llenyddol ar gyfer y gymuned leol.

12 Fodd bynnag, mae rhywfaint o waith y Cwricwlwm Cymreig mewn ysgolion o safon isel. Mewn tua chwarter o ysgolion, mae diffygion yng ngwybodaeth disgyblion am y Cwricwlwm Cymreig.

13 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn gwneud cynnydd da wrth weithredu'r Cwricwlwm Cymreig. Maent yn ystyried bod dogfen ACCAC/AADGOS 'Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig' (2003) yn ffynhonnell gyngor ddefnyddiol iawn ar gyfer cynllunio, ond mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw athrawon wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r arweiniad hwn wrth gynllunio'u gwaith.

14 Yn y sector 14-19, mae Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC) yn rhoi arweiniad da mewn llawer o feysydd llafur ar y Cwricwlwm Cymreig ac mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn dewis dilyn cwrs arholi CBAC mewn TGAU, UG neu Safon Uwch oherwydd y pwyslais cryf hwn ar y Cwricwlwm Cymreig. Fodd bynnag, lle mae ysgolion yn dewis defnyddio maes llafur o fwrdd arholi arall, ni roddir yr un pwyslais ar y Cwricwlwm Cymreig bob amser, ac mae gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth dysgwyr am Gymru yn fwy cyfyngedig o ganlyniad.

15 Mae cynllun peilot o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cael ei gynnal yn yr ystod oedran 16+ ac mae'n darparu ffocws cryf ar y Cwricwlwm Cymreig trwy gyflwyno'r elfen Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB). Mae hyn hefyd yn rhan orfodol o'r Cwricwlwm Llwybrau Dysgu 14-19.

16 Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn dda ar y cyfan. Mae penaethiaid sydd wedi ymrwymo i'r Cwricwlwm Cymreig yn ei ystyried yn agwedd allweddol ar y cwricwlwm ysgol.

17 Prin iawn yw'r athrawon sydd newydd ddechrau gweithio yng Nghymru sydd wedi cael hyfforddiant mewn swydd neu becyn sefydlu ar y Cwricwlwm Cymreig. Mae eu hymwybyddiaeth o natur arbennig y cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn gyfyngedig.

18 Mae darpariaeth adnoddau ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn foddhaol ar y cyfan. Mae'n her barhaus i'r rhan fwyaf o ysgolion ddarparu deunyddiau cyfoes ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig. Mae ACCAC/AADGOS wedi ehangu darpariaeth y deunyddiau Cymraeg yn llwyddiannus yn ystod y degawd diwethaf i gynnwys llawer o feysydd pwnc.

19 Mae ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd wedi elwa'n fawr ar broses gomisiynu ACCAC/AADGOS yn sgil cynhyrchu deunyddiau gwreiddiol gyda ffocws cryf ar y Cwricwlwm Cymreig.

20 Mae papurau arholiad mewn TGAU, UG a Safon Uwch ar gael yn Gymraeg yn y rhan fwyaf o bynciau. Ar wahân i nifer fach o gymwysterau cymhwysol TGAU a Safon Uwch/UG, ychydig iawn o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yn Gymraeg er bod yna rai mentrau i fynd i'r afael â hyn.

3 Argymhellion

A1 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- ofyn bod trefniadau sefydlu ar gyfer athrawon sydd newydd ddechrau gweithio yng Nghymru yn cynnwys ffocws ar y Cwricwlwm Cymreig;
- rhoi arweiniad pellach i ysgolion ar ddatblygu parhad a dilyniant yn y Cwricwlwm Cymreig yn enwedig yn y sector 14-19 mewn perthynas ag astudio Cymru, Ewrop a'r Byd ar lefelau 1, 2 a 3; a
- sicrhau bod mwy o gymwysterau galwedigaethol ar gael yn Gymraeg.

A2 Dylai AALlau:

- gefnogi darpariaeth hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon ynghylch cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig;

A3 Dylai GCaD Cymru:

- ddarparu deunyddiau adnodd ar-lein ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig i fynd i'r afael â'r prinder adnoddau cyfrwng Cymraeg, a mynd i'r afael â'r broblem o ran mynediad at rai rhaglenni;

A4 Dylai ysgolion:

- weithredu archwiliadau rheolaidd a systematig o'r Cwricwlwm Cymreig ym mhob pwnc er mwyn gwella a datblygu'r Cwricwlwm Cymreig; a
- darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer yr holl staff ar y Cwricwlwm Cymreig, yn enwedig y rheiny sydd wedi'u hyfforddi y tu allan i Gymru ac nad ydynt efallai'n gyfarwydd â gofynion cwricwlwm yng Nghymru.

4 Effaith y Cwricwlwm Cymreig ar safonau

21 Mae safonau yn dda neu'n well mewn tri chwarter o ysgolion yr arolwg. Yn yr ysgolion hyn, mae'r Cwricwlwm Cymreig yn aml yn nodwedd gref. Mae weithiau'n anodd llunio perthynas achosol uniongyrchol rhwng y Cwricwlwm Cymreig a safonau uchel oherwydd bod ffactorau eraill hefyd ar waith. Mae'r atodiad yn rhestru astudiaethau achos o arfer dda wrth gyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig.

22 Mae safonau mewn Saesneg yn aml yn dda lle mae disgyblion yn trafod barddoniaeth a rhyddiaith â chyd-destun Cymreig mewn grwpiau, ac yna'n paratoi cyflwyniadau llafar ar eu canfyddiadau i'r dosbarth. Mae'r dilyniant hwn o weithgarwch yn datblygu medrau dadansoddol a dehongliadol disgyblion wrth iddynt weithio'n unigol i ddeall y testun gosod. Maent yn profi'r ddealltwriaeth hon yn erbyn amgyffrediadau eraill yn y grŵp er mwyn llunio dehongliad cytûn. Mae'r sesiwn lawn olaf lle mae unigolion yn cyflwyno'u canfyddiadau i'r dosbarth cyfan yn atgyfnerthu dysgu ac yn sicrhau dealltwriaeth fanwl o'r gwaith. Mae disgyblion hefyd yn gwneud defnydd da o farddoniaeth a cherddoriaeth i ddatblygu dealltwriaeth fanylach o bwysigrwydd digwyddiadau hanesyddol fel gwleidyddiaeth cronfa ddŵr Cwm Tryweryn yn y 1960au a'i heffaith ar y Gymru fodern.

23 Mae safonau mewn gwyddoniaeth yn dda iawn lle mae disgyblion yn profi damcaniaethau ac yn cynnal arbrofion a gallant gysylltu'r rhain â materion o bryder cymdeithasol yng Nghymru fel problemau camddefnyddio cyffuriau. Lle mae hyn yn ymwneud â'r cyd-destun ehangach ac yn gysylltiedig â chanfyddiadau gwyddonydd enwog o Gymru ar effaith cyffuriau ar bobl, roedd agweddau ar y gwaith yn rhagorol.

24 Mae disgyblion yn ennill dealltwriaeth fanylach o'u gwaith trwy waith maes. Mae eu medrau allweddol yn gwella trwy gymryd rhan mewn gwaith maes. Mae hyn oherwydd bod disgyblion yn aml yn gweld bod y gwaith yn berthnasol ac maent yn mwynhau gweithio gydag eraill i ddatrys problemau a dehongli patrymau daearyddol a digwyddiadau hanesyddol. Caiff medrau cyfathrebu, rhifedd a TG eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau fel trafod, dadansoddi data gwaith maes a chynhyrchu adroddiadau wedi'u gairbrosesu ar gyfer gwaith arholi TGAU, UG a Safon Uwch sydd â ffocws ar Gymru. Caiff medrau allweddol ehangach disgyblion o ran datrys problemau, gweithio gydag eraill a gwella'ch dysgu eich hun yn aml eu datblygu i lefel dda trwy weithgareddau'r Cwricwlwm Cymreig.

25 Mae safonau mewn ieithoedd tramor modern yn aml yn dda lle mae disgyblion yn gwneud cyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig i eraill yn y dosbarth gan ddefnyddio'r iaith darged. Mae ansawdd y gwaith yn aml yn uchel, ac mae dysgu yn fywiog pan fydd disgyblion yn defnyddio thema gyfarwydd yn seiliedig ar agwedd ar fywyd yng Nghymru fel y sylfaen ar gyfer y gwaith hwn. Mae hyn yn aml am eu bod yn mwynhau siarad ag eraill yn y grŵp am themâu fel eu cymuned, eiconau chwaraeon yng Nghymru neu sêr pop. Cânt eu cymell a'u herio i gyflawni'n uchel pan fydd yn rhaid iddynt wneud hyn yn yr iaith darged. Mae'r gwaith hefyd o ansawdd uwch gan fod disgyblion yn mwynhau eu tasgau ac yn deall y gwaith.

26 Lle caiff myfyrwyr ieithoedd tramor modern gyfleoedd i ddefnyddio'u hiaith darged bob dydd, er enghraifft, ar brofiad gwaith Bagloriaeth Cymru yn tywys ymwelwyr tramor mewn Eisteddfod Ryngwladol yn eu hiaith frodorol, mae safonau hefyd yn dda

iawn ar y cyfan. Mae hyn oherwydd y cyfleoedd da iawn i ddefnyddio'u medrau iaith dramor fodern mewn cyd-destun ystyrlon ond heriol.

27 Mae safonau mewn astudiaethau busnes yn dda lle mae disgyblion yn defnyddio astudiaethau achos o arfer lwyddiannus ac yn cysylltu'r rhain ag astudiaethau eglurhaol o entrepreneuriaid o Gymru. Mae eu gwaith yn aml o ansawdd da am ei fod yn seiliedig ar enghreifftiau go iawn llawn cymhelliant o arfer lwyddiannus yng Nghymru.

28 Mae disgyblion sy'n llwyddo yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru yn aml yn dangos medrau ymchwiliol ac ymchwil da iawn. Caiff y rhain eu meithrin trwy ymchwiliadau unigol sydd â ffocws cryf ar Gymru. Maent yn aml yn dangos dealltwriaeth dda ac ymwybyddiaeth feirniadol o faterion cyfoes yng Nghymru.

29 Gall y Cwricwlwm Cymreig gael effaith gadarnhaol ar safonau ymddygiad disgyblion, ac ar ddatblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn trefnu gweithgareddau allgyrsiol fel ymweliadau â theatrau, cyngherddau a digwyddiadau chwaraeon a gweithgareddau elusennol, sydd â ffocws cymunedol. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ymddwyn yn gyfrifol ac arfer gofal a phryder am eraill.

30 Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddatblygu llythrennedd diwylliannol disgyblion, yn enwedig y rheiny sydd newydd ddod i Gymru. Mae hyn yn rhoi'r wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth iddynt sy'n eu helpu i ymgartrefu yng Nghymru. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud ag ieithoedd, diwylliannau ac economi'r Gymru fodern.

31 Mae rhywfaint o waith y Cwricwlwm Cymreig mewn ysgolion o safon isel. Mewn tua chwarter o ysgolion, mae diffygion yng ngwybodaeth disgyblion am y Cwricwlwm Cymreig. Mae hyn oherwydd y ffordd y caiff y Cwricwlwm Cymreig ei gynllunio a'i addysgu. Mae rhywfaint o'r gwaith yn ddiddychymyg ac nid yw'n heriol. Mae'n aml yn dibynnu gormod ar lawrlwytho ac ailadrodd gwybodaeth oddi ar wefannau. Mewn un ysgol, mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion cyfnod allweddol 3 yn gwneud dewisiadau rhagweladwy sydd â sail gyfyng ar gyfer eu gwersi dylunio a thechnoleg. Mewn ysgol arall, nid yw disgyblion mewn hanes yn archwilio effaith gymdeithasol a diwylliannol amrywiol diwydiannu ar wahanol rannau o Gymru.

5 Effaith y Cwricwlwm Cymreig ar addysgu a dysgu

32 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ystyried bod dogfen ACCAC/AADGOS 'Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig' (2003) yn ffynhonnell gyngor ddefnyddiol iawn, ond mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw athrawon wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r arweiniad hwn. Defnyddir hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon i gryfhau'r ffocws ar y Cwricwlwm Cymreig mewn lleiafrif o ysgolion yn unig.

33 Mae ansawdd addysgu'r Cwricwlwm Cymreig yn dda neu'n well mewn tri chwarter o ysgolion yr arolwg. Yn yr achosion hyn, mae'r Cwricwlwm Cymreig yn rhoi diben a chyfeiriad i addysgu a dysgu. Mae llawer o athrawon yn credu bod y Cwricwlwm Cymreig yn helpu i hyrwyddo addysgu da a safonau uchel.

34 Mae cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi o ansawdd da ar y cyfan, ac mae gan gyfran uchel o athrawon wybodaeth dda am y Cwricwlwm Cymreig yn eu pynciau. Mae gwersi yn y rhan fwyaf o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn cyfeirio'n briodol at y Cwricwlwm Cymreig. Mae hyn yn cynnwys gwaith sy'n canolbwyntio ar ystod o ddiwylliannau ac amrywiaeth yng Nghymru.

35 Mae athrawon yn aml yn gwneud defnydd da o gyfeiriadau at leoedd yng Nghymru, digwyddiadau yng Nghymru a phobl o Gymru mewn gwersi. Mewn un ysgol, mae disgyblion yn dysgu am fywyd, gwaith ac effaith Syr Terry Mathews ar fyd busnes. Mewn ysgol arall, addysgir disgyblion am waith yr Athro Richard Tecwyn Williams mewn gwyddoniaeth, a'i ddarganfyddiadau am effaith cyffuriau ar bobl. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu sut y gall pobl felly gael effaith ddofn ar y byd. Maent yn aml yn gweld y math hwn o astudio yn ysbrydoledig.

36 Mewn un ysgol gyfun Gymraeg, mae disgyblion chweched dosbarth yn cymryd rhan mewn gweithgaredd datrys problemau yn seiliedig ar ymweliad â dau safle o arwyddocâd hanesyddol yng nghanolbarth Cymru fel rhan o'u gwaith ar gyfer peilot Bagloriaeth Cymru. Disgrifir hwn yn yr astudiaeth achos ganlynol:

Cymharu dau gastell

Trefnir y gwaith maes dros gyfnod o ddeuddydd. Mae disgyblion yn arfarnu'r cryfderau a'r gwendidau cymharol o ran safle a lleoliad Cestyll Dolforwyn a Threfaldwyn. Mae'r ddau safle dan sylw yn lleoliadau lle cafwyd digwyddiad hynod arwyddocaol yn hanes Cymru, sy'n gysylltiedig â gorchfygu Tywysog olaf Cymru, Llewelyn ap Gruffudd. Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth fanylach o bwysigrwydd gwleidyddol a hanesyddol y digwyddiadau hyn, a'r ffordd y mae'r Gymru gyfoes wedi datblygu o ganlyniad. Mae'r gweithgaredd hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu gallu ym medrau allweddol rhifedd, cyfathrebu, TGCh, gweithio gydag eraill, a datrys problemau. Maent yn datblygu medrau darllen a dehongli map, ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y modd y gwnaeth gelynion Llewelyn elwa ar safle llai ffafriol Castell Dolforwyn, a bod hyn o ganlyniad wedi arwain at ei drechu. Mae'r disgyblion yn defnyddio technegau datrys problemau da, a medrau ymchwil, dadansoddi a chyfosod da. Mae gwaith dilynol yn cynnwys defnyddio data cyfrifiad i gymharu'r crynodiadau o bobl sy'n siarad Cymraeg a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn y rhanbarth, a'r modd y caiff y patrymau ieithyddol cyfoes hyn eu pennu'n rhannol gan y digwyddiadau hanesyddol yng Nghestyll Dolforwyn a Threfaldwyn.

Yn y gwaith hwn ar y ddau gastell, mae dysgu yn fwy effeithiol oherwydd bod disgyblion yn cael profiad uniongyrchol trwy waith maes. Mae hyn yn tanio'u dychymyg ac yn eu cymell yn fwy i ymchwilio ymhellach i faterion diwylliant a threftadaeth. Mae profiadau fel y rhain yn gwneud hanes a daearyddiaeth yn fwy perthnasol.

Nodweddion da:

- y cyfle i gymharu lleoliadau'r ddau gastell trwy waith maes;
- gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth dysgwyr am gyfnod pwysig yn hanes Cymru; a
- medrau datrys problemau effeithiol.

37 Mae yna ddiffygion yn y modd y caiff y Cwricwlwm Cymreig ei addysgu mewn tua chwarter o ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys gwendidau wrth gynllunio gwersi. Weithiau, ceir diffyg cyfeiriad eglur at y Cwricwlwm Cymreig mewn gwersi a methiant i hysbysu disgyblion am faterion fel y maent yn effeithio ar Gymru. Ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gan leiafrif o athrawon am y Cwricwlwm Cymreig ac ymddengys eu bod yn amgyffred bod yr hawl hon yn ofyniad ymylol. Mae yna enghreifftiau hefyd lle mae diffyg manylder i'r gwaith a chollir cyfleoedd oherwydd, er bod cyfeiriadau arwynebol, nid yw hyn yn arwain at ddysgu pellach na heriau yn y gwaith a osodir.

6 Ansawdd cynllunio'r cwricwlwm

38 Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn dda yn y rhan fwyaf o ysgolion, a gwneir defnydd effeithiol o ddogfennau arweiniad. Yng nghyfnod allweddol 3, mae Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhoi arweiniad buddiol ar y Cwricwlwm Cymreig.

39 Yn y sector 14-19, mae Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC) yn rhoi arweiniad da mewn llawer o feysydd llafur ar y Cwricwlwm Cymreig. Mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn dewis dilyn cwrs arholi CBAC mewn TGAU, UG neu Safon Uwch oherwydd y pwyslais cryf ar y Cwricwlwm Cymreig. Mae fframwaith y fanyleb ar gyfer cyrsiau arholi CBAC, yn enwedig mewn pynciau fel hanes, cerddoriaeth, a daearyddiaeth, yn cynnwys datganiadau yn debyg i'r canlynol ar gyfer celf.

40 'Mae fframwaith y fanyleb hefyd yn caniatáu defnyddio'r cyd-destun Cymreig i gynllunwyr cyrsiau yng Nghymru ddefnyddio enghreifftiau a blaenoriaethau lleol, a thrwy hynny ganiatáu datblygu'r Cwricwlwm Cymreig. Mae'r fanyleb, y papurau sampl a'r holl elfennau ar gael yn Gymraeg.'

41 Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar gynllunio gwersi ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn yr ystod oedran 14-19. Fodd bynnag, lle mae ysgolion yn dewis defnyddio maes llafur gan fwrdd arholi arall, ni roddir yr un pwyslais bob tro ar y Cwricwlwm Cymreig ac mae dysgwyr yn ennill gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth fwy cyfyngedig am Gymru.

42 Mae arweiniad gan ACCAC/AADGOS, gan gynnwys astudiaethau achos ar sut gellir addysgu'r Cwricwlwm Cymreig yn y rhan fwyaf o bynciau, wedi bod yn fuddiol iawn i ysgolion. Mae arweiniad ACCAC/AADGOS ar y Craidd Dysgu 14-19 hefyd yn cynnwys deunydd astudiaeth achos defnyddiol ar y Cwricwlwm Cymreig.

43 Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn awr yn amlygu enghreifftiau penodol mewn cynlluniau gwaith o'r modd y gall athrawon fynd i'r afael â'r Cwricwlwm Cymreig. Fodd bynnag, ychydig o ysgolion sydd â chynlluniau gwaith sy'n dangos parhad a dilyniant clir a chydlynus mewn gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig, naill ai mewn pynciau, neu ar draws yr ysgol.

44 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan addysgu Cymraeg o ran datblygu'r Cwricwlwm Cymreig. Mae lleiafrif o ysgolion yn gosod targedau cynyddol heriol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf mewn asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 3.

45 Mae gan nifer o fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y sector 14-19 y potensial i gefnogi datblygiad y Cwricwlwm Cymreig gan gynnwys peilot newydd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gyfer myfyrwyr ôl-16, a'r fenter Llwybrau Dysgu a phrosiect Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC).

46 Yn y sector 14-19, mae lle i ddatblygu cyfleoedd pellach i ddysgwyr ddilyn nifer benodol o unedau gwaith yn eu pynciau/cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ennill credyd ychwanegol am hyn.

47 Yng nghwrs Bagloriaeth Cymru, yn ogystal â'u prif gymwysterau, fel Safon Uwch, Safon UG neu gyrsiau galwedigaethol, mae myfyrwyr yn astudio craidd sy'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Cymru, Ewrop a'r Byd;
- elfen o brofiad sy'n canolbwyntio ar waith a phrofiad cymunedol gwirfoddol;
- addysg bersonol a chymdeithasol; a
- modiwl iaith.

48 Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfleoedd da iawn i ddysgwyr astudio'r Cwricwlwm Cymreig. Maent eisoes yn ymweld â safleoedd amrywiol o ddiddordeb hanesyddol a/neu ddaearyddol ac maent yn gwneud llawer o waith sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm Cymreig (gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 9). Ychydig o ganolfannau sy'n addysgu Cymraeg fel rhan o'r modiwl iaith.

49 Mae'r Llwybrau Dysgu yn fenter arall gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n anelu at drawsnewid y ddarpariaeth 14-19 yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn cynnwys craidd dysgu sy'n debyg i graidd Bagloriaeth Cymru ac mae hefyd yn cynnwys astudiaeth o Gymru, Ewrop a'r Byd. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith menter Llwybrau Dysgu ar y Cwricwlwm Cymreig. Fodd bynnag, bydd gofyn cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus a graddau uchel o weithio partneriaeth i ddatblygu'r craidd dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn osgoi ailadrodd elfennau o'u rhaglenni dysgu rhwng cyfnodau allweddol ac ar wahanol lefelau.

50 Mae pob rhwydwaith lleol 14-19 wedi dechrau'r broses o gynllunio strategol ar gyfer y tymor hwy. Fodd bynnag, ychydig o'r cynlluniau cynnar hyn sy'n nodi materion parhad a dilyniant yn y Cwricwlwm Cymreig fel blaenoriaeth.

51 Mae gan weithgareddau allgyrsiol rôl hynod bwysig wrth ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig. Mae hon yn nodwedd ragorol mewn llawer o ysgolion, ac mae hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion Cymraeg, lle mae paratoi dysgwyr i gystadlu mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol Urdd Gobaith Cymru, yn nodwedd ganolog yn y gwaith.

52 Mae cymryd rhan mewn Eisteddfodau'r Urdd trwy weithgareddau ysgol yn cynnwys niferoedd mawr o ddisgyblion. Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn flynyddol yng ngogledd a de Cymru bob yn ail. Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda iawn o dreftadaeth ddiwylliannol amrywiol Cymru yn ogystal â lluosogrwydd bywyd diwylliannol, yn enwedig yn y trefi a'r dinasoedd mwy o ganlyniad i ymgymryd â gweithgareddau a chystadlaethau'r Urdd. Mae gan yr ŵyl genedlaethol hon rôl hynod bwysig wrth ddarparu canolbwynt ar gyfer ysgolion i feithrin medrau creadigol a pherfformio arbennig disgyblion mewn digwyddiadau diwylliannol. Mae ysgolion yn aml yn cyflwyno cyngherddau ar gyfer y gymuned leol fel digwyddiad codi arian i wrthbwyso costau teithio disgyblion a'u teuluoedd i Eisteddfodau. Trwy hyn, mae'r ysgol yn aml yn rhoi hwb diwylliannol a ffynhonnell o gyfoeth llenyddol i'r gymuned leol.

53 Yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn defnyddio'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r ystyriaeth ehangach i themâu pwysig fel dealltwriaeth a dinasyddiaeth gymunedol, hyrwyddo cytgord hiliol, datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth a dinasyddiaeth fyd-eang, a datblygiad cynaliadwy.

54 Mewn ychydig yn llai na chwarter o ysgolion, mae gwendidau yn y cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig. Mae'r rhain yn cynnwys methu archwilio darpariaeth neu gynnwys cyfeiriad at y Cwricwlwm Cymreig mewn cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi. Mae datblygu dwyieithrwydd hefyd yn cael blaenoriaeth gymharol isel yn yr ysgolion hyn. Mewn lleiafrif o achosion, mae ysgolion wedi cynnal archwiliad i nodi lle addysgir y Cwricwlwm Cymreig, ond ni ddefnyddiwyd hwn i gynllunio ar gyfer gwella.

7 Effaith arweinyddiaeth a rheolaeth ar y Cwricwlwm Cymreig

55 Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda ar y cyfan. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae penaethiaid wedi ymrwymo i'r Cwricwlwm Cymreig am eu bod yn ei weld yn agwedd allweddol ar y cwricwlwm ysgol. Maent hefyd yn gwerthfawrogi cyfraniad y Cwricwlwm Cymreig at ddatblygiad personol, cymdeithasol a phersonol disgyblion trwy, er enghraifft, ddysgu yn y gymuned a gweithgareddau allgyrsiol.

56 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisi clir a nodau ac amcanion da i sicrhau'r Cwricwlwm Cymreig ar gyfer disgyblion. Yn yr achosion gorau, mae'r polisi wedi'i ystyried yn glir ac mae'n pwysleisio amrywiaeth mewn cyd-destun o amrywiaeth. Er enghraifft, mae polisi un ysgol yn datgan:

> 'Ni ddylai'r Cwricwlwm Cymreig fod yn ynysol, ond dylai helpu disgyblion i edrych tuag allan, yn hyderus o'u hunaniaeth eu hunain, i weld Cymru fel rhan o'r gymuned ryngwladol fodern ehangach'.

57 Defnyddiwyd arweiniad ACCAC/AADGOS yn effeithiol i hyrwyddo'r athroniaeth hon a datblygu'r Cwricwlwm Cymreig yn y rhan fwyaf o ysgolion, trwy ddarparu syniadau newydd ac enghreifftiau astudiaeth achos ar sut i ddatblygu darpariaeth.

58 Mae tua hanner yr ysgolion wedi penodi cydlynydd ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig, ac, mewn ysgolion eraill, caiff y rôl hon yn aml ei chynnwys yn nisgrifiad swydd yr uwch reolwr sydd â chyfrifoldeb am y cwricwlwm. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion lywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am y Cwricwlwm Cymreig, ond mae hyn yn bennaf fel rhan o frîff ehangach sy'n cynnwys y cwricwlwm cyfan.

59 Lle mae'r pennaeth, neu aelod o'r uwch dîm rheoli, ac aelod o'r corff llywodraethol yn cymryd diddordeb a chyfrifoldeb penodol dros y Cwricwlwm Cymreig, caiff hyn effaith fuddiol gref ar yr ysgol. Mae hyn yn aml yn nodwedd o ysgolion Cymraeg. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gwella ethos Cymreig ysgol yn llwyddiannus trwy ddatblygiadau cymharol fach fel cynyddu'r defnydd o arwyddion a deunydd ysgrifennu dwyieithog.

60 Mae gan leiafrif o ysgolion athrawon sydd newydd ddechrau gweithio yng Nghymru. Ychydig o'r athrawon hyn sydd wedi cael hyfforddiant mewn swydd neu becyn sefydlu ar y Cwricwlwm Cymreig.

61 Mewn lleiafrif o achosion, mae ysgolion yn wynebu heriau dwys ac unigryw fel salwch tymor hir pennaeth neu uwch aelod o staff sydd wedi bod yn arwain ar y Cwricwlwm Cymreig. Mae mentrau i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig yn yr ysgolion hyn weithiau'n methu oherwydd bod yr athrawon hyn yn absennol ar gyfnodau cynllunio hollbwysig yn ystod y flwyddyn ysgol. Gall disgyblion sy'n newydd i Gymru ac sydd ag ychydig iawn o wybodaeth flaenorol am yr iaith a'r diwylliant fod yn fwy o her i athrawon sy'n hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig.

8 Darpariaeth adnoddau ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig

62 Mae'r ddarpariaeth adnoddau ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn foddhaol ar y cyfan. Mae'n her barhaus i'r rhan fwyaf o ysgolion ddarparu deunyddiau cyfoes ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig. Mae hyn yn benodol oherwydd yr angen i ddarparu:

- adnoddau ar gyfer addysgu Cymraeg fel pwnc ac adnoddau ar gyfer pynciau eraill a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg;
- deunyddiau sy'n mynd i'r afael â'r agweddau hynny ar y cwricwlwm sy'n nodedig i Gymru; a
- deunyddiau sy'n cefnogi 'Cymreictod' cyffredinol profiadau dysgu disgyblion.

63 Yng Nghymru, mae gan swyddogion ACCAC/AADGOS gyfrifoldeb yn y maes hwn. Maent yn trefnu nifer o banelau pwnc sy'n cynnwys athrawon arbenigol i roi cyngor ar anghenion adnoddau a nodwyd. Yna, caiff y rhain eu blaenoriaethu ac mae ACCAC/AADGOS yn comisiynu gwaith i ddarparu adnoddau i fodloni'r anghenion pwnc canfyddedig mewn Cymraeg a Saesneg.

64 Ehangodd ACCAC/AADGOS ddarpariaeth y deunydd Cymraeg yn ystod y degawd diwethaf i sawl maes pwnc lle'r oedd ychydig iawn o ddeunyddiau cyhoeddedig ar gael o'r blaen. Mae hon yn strategaeth lwyddiannus iawn sydd wedi bod yn hynod bwysig i ysgolion Cymraeg i'w cefnogi wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae yna brinder gwerslyfrau Cymraeg addas o hyd mewn cyrsiau a phynciau galwedigaethol fel seicoleg. Er bod y Cwricwlwm Cymreig yn gryf mewn ysgolion Cymraeg yn gyffredinol, mae prinder adnoddau cyfrwng Cymraeg mewn meysydd pwnc penodol yn cyfyngu ar allu ysgolion felly i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig ymhellach.

65 Mae ysgolion Saesneg wedi elwa'n fawr ar strategaeth gomisiynu ACCAC/AADGOS. Wrth i wahaniaethau ddatblygu rhwng y cwricwlwm yng Nghymru a'r cwricwlwm yn Lloegr, symudwyd tuag at gynhyrchu deunyddiau gwreiddiol gyda ffocws cryf ar y Cwricwlwm Cymreig. Lluniwyd deunyddiau yn Saesneg, ond sy'n adlewyrchu cyd-destun Cymreig, er enghraifft, mewn daearyddiaeth, wrth ymateb i gyrsiau TGAU, UG a Safon Uwch newydd. Bydd datblygu Llwybrau Dysgu 14-19 a chymwysterau newydd fel Bagloriaeth Cymru ar lefelau 1, 2 a 3 yn cyflwyno mwy o heriau i ACCAC/AADGOS i ddarparu adnoddau addas yn y dyfodol. Mae ELWa (a unodd ag AADGOS yn ddiweddar hefyd) wedi ariannu prosiect i ehangu ystod y deunyddiau i gefnogi nifer o feysydd galwedigaethol poblogaidd fel twristiaeth a hamdden.

66 Gwneir defnydd cynyddol o offer TG fel cyfrifiaduron a byrddau gwyn rhyngweithiol mewn ysgolion. Mae'r twf hwn yn cyflwyno heriau penodol i athrawon sy'n cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig oherwydd bod llai o ddeunydd ar gael yn Gymraeg nac yn Saesneg; ac mae llai o raglenni'n adlewyrchu anghenion cwricwlaidd nodedig Cymru o gymharu â Lloegr.

67 Mae datblygiad y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (GCaD Cymru) yn gyfle da iawn i ysgolion unioni'r anghydbwysedd hwn. Ariennir GcaD Cymru gan

Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i rheolir mewn partneriaeth â Chydbwyllgor Addysg Cymru a phob Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru. Un o'i flaenoriaethau allweddol yw datblygu adnoddau sy'n adlewyrchu'r Cwricwlwm Cymreig a darparu deunyddiau ar gyfer ysgolion yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n annog ysgolion i lunio deunyddiau ar gyfer y wefan ac i rannu arfer dda. Mae yna enghreifftiau defnyddiol o gynlluniau gwersi ar gyfer athrawon ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae yna gysylltiadau defnyddiol hefyd â gwefannau addysgol eraill, gwybodaeth am ysgolion yng Nghymru ac arweiniad ar waith sefydliadau partner.

68 Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y prosiect addawol ac arloesol hwn ar fynd i'r afael ag anghenion ysgolion o ran adnoddau, er bod y cynnydd yn nifer y bobl sydd wedi troi at y wefan yn ystod y 18 mis diwethaf yn ddangosydd da. Mae yna anawsterau o hyd i fynd i'r afael â hwy, fel cyflymder araf cael mynediad at rai rhaglenni, a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yn Gymraeg.

69 Cyfeiriwyd yn flaenorol at y rhaglen gyfoethog o ymweliadau allgyrsiol ym mhennod 5 fel nodwedd nodedig o ysgolion sy'n cymryd rhan ym Magloriaeth Cymru. Fodd bynnag, nifer gymharol fach o ddysgwyr sy'n cymryd rhan fel arfer. Mae'r math hwn o waith yn aml yn gymharol ddrud oherwydd y costau teithio a llety ychwanegol. Mae llawer o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen beilot yn adrodd na fyddant efallai'n gallu cynnal hyn gyda niferoedd mawr o ddysgwyr.

70 Mae papurau arholiad mewn TGAU, UG a Safon Uwch ar gael yn Gymraeg yn y rhan fwyaf o bynciau. Fodd bynnag, nid ydynt ar gael mewn pynciau fel dawns oherwydd anawsterau honedig wrth benodi arholwyr. Ar wahân i gymwysterau TGAU a Safon Uwch/UG cymhwysol, ychydig o gymwysterau galwedigaethol eraill sydd ar gael yn Gymraeg er bod yna sawl menter i ehangu'r rhain ar hyn o bryd.

Atodiad

Astudiaethau Achos o arfer dda wrth gyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig

Astudiaeth Achos 1 Y Cwricwlwm Cymreig yn Saesneg

Mewn un ysgol, mae disgyblion B10 yn gweithio yn Saesneg yn edrych ar ddetholiad o gerddi gan awduron o Gymru. Maent yn gweithio'n unigol i ddechrau i ddehongli'r cerddi cyn trafod eu canfyddiadau mewn grwpiau. Yna, mae unigolion yn paratoi cyflwyniad llafar i'r dosbarth am eu canfyddiadau. Mae'r dilyniant hwn o weithgareddau yn datblygu medrau dadansoddol a dehongliadol disgyblion wrth iddynt weithio'n unigol i ddeall y testun gosod. Maent yn profi'r ddealltwriaeth hon yn erbyn amgyffrediadau disgyblion eraill yn y grŵp er mwyn llunio dehongliad cytûn. Mae'r sesiwn lawn olaf lle mae unigolion yn cyflwyno'u canfyddiadau i'r dosbarth cyfan yn atgyfnerthu dysgu ac yn sicrhau dealltwriaeth fanwl o'r gwaith.

Nodweddion da:

- ffocws cryf ar feirdd o Gymru sy'n ysgrifennu yn Saesneg;
- cyfleoedd da i ddisgyblion ddeall barddoniaeth sydd wedi'i hysgrifennu yng Nghymru; a
- chyflwyniadau llafar disgyblion yn atgyfnerthu'r dysgu.

Astudiaeth Achos 2 Y Cwricwlwm Cymreig mewn ieithoedd tramor modern

Mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn defnyddio materion Cymreig poblogaidd fel cyd-destun i ddatblygu safonau uchel mewn gwaith llafar ac ysgrifenedig mewn ieithoedd tramor modern. Maent yn llunio cyflwyniadau a ystyriwyd yn ofalus ar y "ffordd Gymreig o fyw" i gynorthwywyr ieithoedd tramor modern sydd newydd gyrraedd. Rhoddir llawer iawn o ystyriaeth ac amrywiaeth i'r cyflwyniadau sy'n canolbwyntio ar gyfeillgarwch y bobl, rygbi, y tywydd a sêr ffilm a cherddorion roc enwog. Mae'r profiad hwn yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion weithio yn yr iaith darged tra byddant yn defnyddio agweddau ar fywyd yng Nghymru i gymell ac ehangu geirfa.

Nodweddion da:

- cynllunio gwersi da iawn gyda thasgau a gweithgareddau diddorol;
- defnyddir materion Cymreig i gymell disgyblion i ddatblygu safonau uchel; a
- defnydd da iawn o'r iaith darged gan ddisgyblion.

Astudiaeth Achos 3 Y Cwricwlwm Cymreig mewn hanes

Mae disgyblion cyfnod allweddol 4 mewn un ysgol yn gweithio mewn grwpiau i astudio barddoniaeth a cherddoriaeth o'r 1960au yng Nghymru. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o'r materion diwylliannol a chymdeithasol sy'n codi o wleidyddiaeth cronfa ddŵr cwm Tryweryn a'r effaith a gafodd hyn ar y dirwedd wleidyddol yng Nghymru. Mae'r wers yn hynod o ddiddorol oherwydd y defnydd o ystod eang o ddeunyddiau adnodd. Mae hyn yn cynnwys detholiad o farddoniaeth, cerddoriaeth werin Gymraeg gyfoes o'r 1960au a thaflenni gwaith a luniwyd yn dda sy'n cynnwys tasgau heriol a diddorol ar gyfer disgyblion. Mae'r wers yn fywiog ac mae disgyblion yn dysgu llawer iawn am farddoniaeth, cerddoriaeth a digwyddiadau hanesyddol y cyfnod.

Nodweddion da:

- barddoniaeth a cherddoriaeth a ddefnyddir gan ddisgyblion i ddeall arwyddocâd Tryweryn;
- defnydd effeithiol o adnoddau da; a
- chyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu medrau uchel.

Astudiaeth Achos 4 Y Cwricwlwm Cymreig mewn astudiaethau busnes

Mewn ysgol arall, gofynnir i ddisgyblion astudiaethau busnes yng nghyfnod allweddol 4 adnabod Cymry adnabyddus. Gall y rhan fwyaf adnabod sêr pop, pobl ym myd chwaraeon a gwleidyddion, ond ychydig iawn ohonynt sy'n gallu adnabod entrepreneur byd enwog o Gymru. Mae'r wers yn llwyddiannus oherwydd gwneir defnydd da iawn o luniau i herio delweddau ystrydebol am Gymru, ac mae'n sicrhau bod gan y disgyblion ymwybyddiaeth ddatblygol o bwysigrwydd busnes i economi Cymru ac mae'n herio'r farn boblogaidd bod llawer o bobl yng Nghymru yn gwrthod mentro mewn busnes. Mae disgyblion yn datblygu syniadau da ar sut i wella nifer y busnesau newydd yng Nghymru.

Nodweddion da:

- caiff agweddau ystrydebol disgyblion ar fusnes eu herio;
- mae gan ddisgyblion syniadau da ar ddatblygu busnesau yng Nghymru; a
- ffocws cryf ar faterion busnes go iawn yng Nghymru.

Astudiaeth Achos 5 Y Cwricwlwm Cymreig mewn Gwyddoniaeth

Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 4 mewn un ysgol cyfrwng Cymraeg wybodaeth a dealltwriaeth da iawn am lwyddiant cyffuriau penodol wrth wella afiechydon, a pheryglon camddefnyddio cyffuriau. Mae'r disgyblion hyn wedi'u synnu ar y dechrau i ddysgu mai Cymro oedd arbenigwr mwyaf blaenllaw'r byd ar effeithiau cyffuriau ar y corff. Mae'r wers yn defnyddio ystod eang o adnoddau ysgogol aml-gyfrwng i gymell a hysbysu disgyblion. Mae tasgau disgybl yn cynnwys arbrofion heriol a diddorol. Maent wedi ymgysylltu'n llawn ac maent yn datblygu dealltwriaeth fanwl o ddylanwad grymus cyffuriau penodol wrth fynd i'r afael ag afiechydon ar lefel fyd-eang, ac o beryglon a chanlyniadau camddefnyddio cyffuriau, sy'n broblem gymdeithasol mewn rhai rhannau o Gymru.

Nodweddion da a rhagorol:

- cynllunio gwersi yn rhagorol;
- defnydd effeithiol o gyflwyniad aml-gyfrwng;
- gwaith arbrofol ysgogol;
- addysgu rhagorol; ac
- mae disgyblion yn datblygu medrau uchel yn effeithiol.

Astudiaeth Achos 6 Y Cwricwlwm Cymreig mewn technoleg bwyd

Mewn un ysgol, mae dosbarth blwyddyn 10 mewn technoleg bwyd yn cymryd rhan mewn menter Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef Cynulliad Bwyd Ieuenctid Cymru. Mae'r dosbarth wedi ymweld â'r Cynulliad ac wedi cael dealltwriaeth dda o agweddau ar waith y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys gwaith y Llywydd a gwaith y Gweinidog Plant. Mae'r gwaith wedi rhoi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cadarn iawn i ddisgyblion am faterion a phryderon iechyd cyfredol yng Nghymru a'r angen i unigolion ddatblygu ffordd iach o fyw yn seiliedig ar ddiet ac ymarfer corff.

Nodweddion da:

- gwybodaeth am ddiet iach a ffyrdd iach o fyw;
- dealltwriaeth o bolisi allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar iechyd; a
- hyder gwell trwy ddisgyblion yn cyfarfod â chynrychiolwyr etholedig.

Astudiaethau Achos o'r Cwricwlwm Cymreig mewn Canolfannau Peilot Bagloriaeth Cymru

Mae peilot cymhwyster ôl-16 Bagloriaeth Cymru yn galluogi disgyblion chweched dosbarth a myfyrwyr addysg bellach i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth da o'r digwyddiadau pwysig sy'n llunio'r Gymru fodern. Yn aml, mae gan y myfyrwyr hyn wybodaeth dda am faterion pryder, fel tai gwledig, cynhwysiad cymdeithasol ac adfywio diwydiannol a chymunedol. Mae'r myfyrwyr yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r systemau gwleidyddol yng Nghymru, y DU ac Ewrop. Fel rhan o'r cymhwyster hwn, mae disgyblion yn cyfranogi mewn prosiectau yn y gymuned. Maent yn datblygu o ran hyder wrth iddynt gynllunio a gweithredu gweithgareddau mor amrywiol â threfnu timau pêl-droed yn y gymuned ar gyfer pobl ifanc sydd dan anfantais, a rhoi cymorth ymarferol i bobl oedrannus. Trwy'r mathau hyn o weithgareddau, mae myfyrwyr yn datblygu lefelau uchel o bryder cymdeithasol ac ymdeimlad cynyddol o gyfrifoldeb dinesig. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn rhoi esboniad o effaith y cymhwyster hwn ar eu bywydau a'u gwaith.

Astudiaeth Achos 7 Y Cwricwlwm Cymreig mewn addysg sy'n canolbwyntio ar waith

Mewn un ysgol, mae yna enghreifftiau da o addysg sy'n canolbwyntio ar waith a gwaith menter addysg. Mae gan fyfyrwyr ddealltwriaeth well o ddiben profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith trwy raglen Bagloriaeth Cymru. Bu deg o fyfyrwyr yn gwneud profiad gwaith yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen oherwydd eu medrau iaith dramor. Mae'n ofynnol iddynt gyfathrebu'n uniongyrchol â chystadleuwyr yn Gymraeg, yn Saesneg, yn Sbaeneg neu yn Ffrangeg. Mae'r profiad hwn yn rhoi cyfleoedd da iawn iddynt ymarfer eu medrau iaith a datblygu eu medrau rhyngbersonol hefyd wrth iddynt gyfarfod pobl o wahanol wledydd Ewropeaidd.

Nodweddion da:

- defnyddio'r iaith darged trwy gyfarfod siaradwyr brodorol sy'n ymweld;
- safonau medrau allweddol gan gynnwys gweithio gydag eraill; a
- datblygu medrau datrys problemau mewn iaith dramor fodern.

Astudiaeth Achos 8 Y Cwricwlwm Cymreig yng Nghymru, Ewrop a'r Byd

Mewn un ysgol, anogir disgyblion i ddatblygu medrau ymchwiliadol yn gynnar yn yr elfen Cymru, Ewrop a'r Byd wrth baratoi ar gyfer yr ymchwiliad unigol. Mewn un sesiwn ar wleidyddiaeth, mae disgybl yn cynllunio holiaduron ar faterion gwleidyddol dethol (Irac, partneriaethau dinesig, cofnodion DNA, ewthanasia, ynni niwclear, yfed 24 awr) a rhoddir nhw 'ar brawf' yn y dref leol. Yna, maent yn defnyddio'u dadansoddiad o'u canfyddiadau i baratoi cwestiynau ar gyfer cyfarfod y byddant yn ei gael gydag Aelod Cynulliad lleol yr wythnos ganlynol. Maent yn hunanfeirniadol iawn o'u hymchwil eu hunain a'i chyfyngiadau mewn perthynas â pharatoi ar gyfer yr ymchwiliad. Mae hon yn sesiwn a addysgir yn dda iawn. Mae myfyrwyr yn ymwybodol o ystod eang o faterion cyfoes a rhoddir pwyslais da ar amau tybiaethau di-feddwl. Mae eu hymwybyddiaeth feirniadol wedi'i datblygu'n dda.

Nodweddion da:

- medrau uchel o ran ymchwilio, dadansoddi ac arfarnu beirniadol;
- gwybodaeth fanwl myfyrwyr am Gymru, Ewrop a'r Byd; a
- hyder a medrau llafar o ansawdd uchel myfyrwyr.

Astudiaeth Achos 9 Y Cwricwlwm Cymreig mewn ymchwiliadau unigol

Mewn un canolfan beilot Bagloriaeth Cymru, mae'r gwaith yn cynnwys rhywfaint o ymchwiliadau da. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaeth gymharol o'r iaith Gymraeg a Basgeg a chynhyrchu DVD sy'n rhoi barn graff a gwybodus am raddau ac effaith dylanwadau a delweddau Cymreig ac Americanaidd yng nghanol Caerdydd. Mae yna brosiect diddorol hefyd ar amddifadedd cymharol yng Nghaerdydd. Roedd y sampl o ymchwiliadau yn cynnwys astudiaethau cymharol: o'r cyfansoddwyr, Bartok a Grace Williams; o ofal iechyd yng Nghymru ac UDA; o ysgolion yng Nghymru a Ffrainc; ac o gerddoriaeth werin Gymreig a cherddoriaeth werin Tsieinaidd. Addasiadau o waith cwrs ar gyfer astudiaeth bwnc Safon Uwch yw dau o'r ymchwiliadau. Mae'r ymchwiliadau unigol a welwyd i gyd wedi'u trefnu'n ofalus ac wedi'u cyflwyno'n arbennig o dda, gyda defnydd da o TGCh. Mae'r gwaith gorau yn cynnwys cwestiynau a themâu y rhoddwyd ystyriaeth dda iddynt a dadansoddiad clir, gwybodus.

Nodweddion da:

- defnyddio gwrthgyferbyniad a'r dull hwn o gymharu i ddatblygu dysgu;
- gallu myfyrwyr i gysylltu materion yng Nghymru â dimensiwn rhyngwladol ehangach; ac
- ansawdd y cyflwyniad gan ddefnyddio technoleg gyfrifiadur.